# 27. YR ORUWCH-YSTAFELL UNWAITH ETO

**Darllen:** Marc 16: 1-4-18,
Mathew 28: 16-20,
Luc 24: 36-49,
Ioan 20: 19-23, Actau 1: 6-8

Araf iawn oedd y disgyblion i roi ateb cadarnhaol i'r newyddion am yr Atgyfodiad. Ni ddywedodd y gwragedd ddim wrth y disgyblion am eu profiad yn yr ardd am eu bod wedi eu harswydo. Yn nes ymlaen, anghrediniaeth llwyr oedd ymateb yr un-ar-ddeg i'r stori. Dyna'u cyflwr pan ddaeth Iesu atynt yn hwyr ar Ddydd Sul. Ar ôl eu cyfarch, dangosodd ei ddwylo a'i ystlys iddynt - a bu llawenydd mawr. Rhoddodd iddynt ei dangnefedd gan anadlu arnynt i'w gwneud yn gryf i gyflawni eu gwaith ein gwaith ninnau, a'i waith yntau.

Pwysleisia Mathew, Marc a Luc anghrediniaeth pawb o'r disgyblion, tra canolbwyntia efengyl Ioan ar Thomas. Yn ôl Ioan, nid oedd Thomas yno ar Nos Sul yr Atgyfodiad. Gwrthododd dderbyn tystiolaeth y lleill, gan ofyn am brawf corfforol. Ymhen yr wythnos daeth Iesu atynt unwaith eto ac ar ôl iddo eu cyfarch, trodd at Thomas gan ddweud wrtho am roi ei fys yn olion yr hoelion a'i law yn ei ystlys, yng nghlwyf gwaywffon y milwr, yn un â'i ddymuniad wythnos ynghynt. Gwaeddodd Thomas: '*Fy Arglwydd a'm Duw!*' '*Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld'* oedd sylw ei Arglwydd.

Dyma'r tro olaf iddo ddod atynt yn Jerwsalem yn ôl Mathew, Marc ac Ioan. Ond, yn ôl yr '*ail ddiwedd'* i Efengyl Marc, '*ymddangosodd iddynt yn ddiweddarach'*, tra bod Mathew ac Ioan yn lleoli'r ymddangosiad nesaf, yr olaf, yng Ngalilea.

**Gweddi:**
*O Dduw'r proffwydi, cyflawnaist dy addewid*
*y byddai Crist yn dioddef ac yn codi i ogoniant.*
*Agor ein meddyliau i ddeall yr ysgrythurau*
*fel y byddom ni'n dystion iddo hyd eithafoedd y ddaear.*
*Gofynnwn hyn drwy Iesu Grist ein Harglwydd,*
*sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi,*
*mewn undod a'r Ysbryd Glân,*
*yn un Duw yn oes oesoedd. Amen.*